

## Tystysgrif Pearson BTEC Lefel 1/Lefel 2 Cyntaf

# Celf a Dylunio

Uned 7: Cofnodi ar gyfer Bwriadau Creadigol  
mewn Celf a Dylunio

2015

Amser: 5 awr

Cyfeirnod y Papur

**21931G**

Nid oes angen unrhyw ddeunyddiau eraill arnoch.

### Cyfarwyddiadau i ganolfannau

- Bydd y thema ar gael ar wefan Pearson [www.BTEC.co.uk/2012](http://www.BTEC.co.uk/2012) o 1 Mawrth ymlaen ym mlwyddyn yr arholiad.
- Rhaid dosbarthu'r papur hwn ar 01/05/2015 a rhaid ei sefyll erbyn 15/05/2015.
- Rydym yn argymhell bod 10 munud cyntaf y 5 awr yn cael ei ddefnyddio fel amser darllen.
- 30 yw cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn.

Trowch y dudalen ►

P48832A

©2015 Pearson Education Ltd.

1/1/



PEARSON

## Gwybodaeth i ddysgwyr

**Dylech ddarllen y wybodaeth hon cyn dechrau ar eich gwaith ar gyfer yr asesiad. Dylech gyfeirio at y cyfarwyddiadau hyn wrth i chi gwblhau'r gwaith ar gyfer y papur hwn.**

Yn ystod y cyfnod o 5 awr, bydd angen i chi:

- darllen y wybodaeth a meddwl sut gallech chi ddefnyddio'r ffynonellau gweledol sy'n cael eu darparu gan yr athro/athrawes
- arbrofi gyda gwahanol ddulliau o gofnodi trwy ymchwilio i gyfryngau, defnyddiau a thechnoleg, a'u defnyddio
- cynhyrchu astudiaethau arsylwi personol (lluniadau, ffotograffau neu gofnodion mewn fformatau eraill) o'r ffynonellau gweledol sydd wedi'u darparu ac yna datblygu'r rhain yn syniadau dylunio, er enghraifft trin delweddau (*image manipulation*), maquettes, cyfuniadau gwahanol o liwiau (*colourways*), lluniadau wrth raddfa ac anodi
- cadw nodiadau o gynnydd, meddyliau, syniadau, newidiadau a phrosesau gwaith trwy anodi yn eich llyfr braslunio, ar ddalennau datblygu neu mewn llyfr log o ddysgu annibynnol
- adolygu eich cynnydd ac ailwerthuso'r syniadau, defnyddiau, prosesau a thechnegau a ddewisoch
- dangos sut gallai eich gwaith gael ei ddatblygu i fod yn waith gorffenedig, petaech chi'n cael mwy o amser.

Gweithio o dan amodau arholiad:

- byddwch yn gweithio o dan amodau arholiad dan oruchwyliaeth, fel arfer yn eich ystafell gelf a dylunio.

Yn ystod 5 awr yr asesiad, bydd eich athro/athrawes:

- yn dosbarthu'r papur arholiad
- yn gallu rhoi cyngor a chefnogaeth dechnegol i chi
- ni fydd yn gallu siarad â chi am eich syniadau creadigol.

**Mae briffiau yn ymddangos ar y tudalennau canlynol. Rhaid i chi ddewis UN o'r rhain er mwyn cwblhau eich gwaith ar gyfer y papur hwn.**

Gan ddefnyddio'r ffynonellau gweledol sy'n cael eu darparu gan eich athro/athrawes, rhaid i chi gynhyrchu cyfres o astudiaethau arsylwi personol sy'n archwilio'r elfennau ffurfiol mewn **defnyddiau wedi'u hailgylchu**. Dewiswch un o'r senarios ar y tudalennau canlynol a datblygwch syniadau dylunio o'ch astudiaethau arsylwi personol cychwynol. Rhaid i'ch syniadau ddangos eich bwriadau creadigol yn glir. Nid oes disgwyl i chi gynhyrchu gwaith cyflawn, gorffenedig.

### **Celf a Dylunio (Diarnodedig)**

Yn achos y llwybr diarnodedig mewn celf a dylunio, gallwch ddewis unrhyw agweddau ar friffiau'r llwybrau. Byddai'n synhwyrol canolbwyntio ar lwybr rydych chi wedi ei fwynhau ac wedi dysgu amdano yn ystod eich cwrs celf a dylunio.

Mae eich cleient, y cyngor lleol, eisiau lansio ymgyrch i hyrwyddo ailgylchu. Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau hyrwyddo wedi'u cynllunio i annog pobl ifanc i gymryd rhan. Bydd ysgolion lleol a grwpiau eraill yn ymuno â'r ymgyrch, sydd â'r arwyddair "*Peidiwch â'i daflu allan – dylech ei daflu i mewn*". Rydych chi wedi cael eich comisiynu i gofnodi delweddau a chynhyrchu syniadau dylunio sydd wedi'u hysbrydoli gan **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**, gan ddangos eich bwriadau creadigol, i'w cyflwyno i'r tîm sy'n rheoli'r ymgyrch. Mae'r cyngor yn croesawu syniadau newydd ac yn barod i ystyried pob ffurf ar waith creadigol, cynrychioliadol (*representational*) neu haniaethol (*abstract*).

## Llwybrau

### Crefftau Dylunio

1. Rydych chi'n ddylunydd gemwaith a gofynnwyd i chi gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer cyfres (*range*) o emwaith wedi'i wneud o **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Bydd y gemwaith yn cael ei werthu yn oriel grefft y dref i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch.
2. Rydych chi'n grefftwr a gofynnwyd i chi gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer darn wedi'i wehyddu (*woven*) neu ddarn gwneud (*constructed*) a wnaed o **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Gallai'r darn fod yn orchudd llawr neu'n groglun (*wall hanging*).
3. Rydych chi'n grefftwr ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer symudyn (*mobile*) a fydd yn cael ei osod yn nerbynfa swyddfeydd y cyngor. Bydd y symudyn wedi'i ysbrydoli gan **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**.

### Ffasiwn a Thecstilau

1. Rydych chi'n ddylunydd ffasiwn ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer gwisg (*costume*) wedi'i gwneud o **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Bydd y wisg yn ymddangos mewn carnifal i ddathlu ailgylchu.
2. Rydych chi'n ddylunydd bagiau ac ategolion (*accessories*). Rydych chi wedi cael comisiwn i gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer ategolion sy'n gallu cael eu gwneud o **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Gallai'r ategolion fod yn fag, yn wregys, yn gas (*case*) ffôn symudol a/neu yn het.
3. Rydych chi'n ddylunydd tecstilau ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer ffabrig dodrefnu o decstil printiedig ar gyfer llenni a chlustogwaith (*upholstery*). Bydd y ffabrig wedi'i ysbrydoli gan **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu** ac yn cael ei ddefnyddio ym mhrif swyddfa'r ffatri ailgylchu.

## Ffotograffiaeth

1. Rydych chi'n ffotograffydd ac wedi cael eich comisiynu i ddarparu delweddau ffotograffig a syniadau dylunio i'w defnyddio mewn llyfryn A5 am **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Rhaid i chi ddangos i'ch cleient sut bydd eich delweddau'n cael eu defnyddio ar y clawr blaen a'r clawr cefn ac ar bedair tudalen yn y llyfryn. Mae'r cyngor yn dymuno cael cyn lleied â phosibl o destun yn y llyfryn a bydd hyn yn cael ei ychwanegu'n ddiweddarach gan y tîm dylunio.
2. Rydych chi'n ffotograffydd sydd wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio i'w defnyddio ar faneri yn neuadd y dref ar adeg lansio'r ymgyrch. Bydd y baneri yn 3 m x 2 m. Mae angen pedair baner, bob un gyda delwedd wahanol arni. Rhaid i'r baneri adlewyrchu thema **defnyddiau wedi'u hailgylchu** yn glir a denu'r cyhoedd.
3. Rydych chi'n ffotograffydd sydd wedi cael eich comisiynu i ddarparu delweddau ffotograffig a syniadau dylunio i'w defnyddio ar gerbydau ailgylchu'r cyngor. Bydd y delweddau wedi'u seilio ar **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu** a'u hargraffu ar ffilm hunanadlynol (*self-adhesive film*), sydd ar gael mewn unrhyw faint. Gallai'r delweddau gael eu gosod ar ddrysau, ar foned (*bonnet*) neu ar ochrau'r cerbydau, ond nid ar y sgrin wynt (*windscreen*).

## Dylunio Cynnyrch


1. Rydych chi'n ddylunydd cynnyrch sydd wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer bin i annog ailgylchu yn y cartref. Rhaid bod adrannau yn y bin ar gyfer gwahanol fathau o ddeunydd ailgylchadwy. Rhaid i'ch syniadau gael eu hysbrydoli gan yr elfennau ffurfiol sydd i'w cael mewn **defnyddiau wedi'u hailgylchu**.
2. Rydych chi'n ddylunydd cynnyrch ac mae angen i chi gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer 'trefnydd desg' (*desk tidy*) sydd wedi ei ysbrydoli gan **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Bydd y darn yn cael ei ddefnyddio yn swyddfeydd y cyngor a rhaid iddo allu dal cyfuniad o feiros, pensiliau, styffylwr, cyfrifiannell, cofau bach (*memory sticks*) ac eitemau cyffredin eraill.
3. Rydych chi'n ddylunydd cynnyrch ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer lamp wedi'i wneud o **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Gall hwn fod yn lamp ar gyfer desg neu'n lamp sy'n sefyll ar ei ben ei hun (*free-standing*) hyd at uchder o 2.2 m ar y mwyaf. Gall gael un bylby neu nifer o fylbiau a bydd yn cael ei ddefnyddio yn swyddfeydd y cyngor.

## Celfyddydau Gweledol

1. Rydych chi'n artist ac wedi cael eich comisiynu i ddarparu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer cynrychioliad 2D neu 3D o'r gair "Sbwriel" (*Rubbish*) i'w osod o flaen y ganolfan ailgylchu. Mae angen i'r darn ddal y llygad a bod yn llawn hwyl, a bod wedi'i ysbrydoli gan siapiau a ffurfiau **defnyddiau wedi'u hailgylchu**.
2. Rydych chi'n artist a fydd yn cyflwyno delweddau a syniadau dylunio ar gyfer darn o waith celf i'w arddangos yn yr oriel (*gallery*) leol mewn arddangosfa sydd wedi'i hysbrydoli gan **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Gall eich gwaith fod yn waith 2D neu 3D.
3. Rydych chi'n artist sy'n gweithio ar gomisiwn i gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer murlun wedi'i ysbrydoli gan **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Bydd y murlun yn cael ei osod ar ochr ysgol leol i annog pobl ifanc i ymuno â'r ymgyrch ailgylchu. Mae'r wal yn mesur 6 m x 3 m ac mae'n goncrit wedi'i rendro'n llyfn. Dylai fod yn hawdd sylweddoli bod y murlun yn rhan o'r cyhoeddusrwydd ar gyfer yr ymgyrch, a chewch ddefnyddio testun os ydych yn dymuno gwneud.

## Cyfathrebu Gweledol


1. Rydych chi'n animeiddydd (*animator*) ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu bwrdd stori ar gyfer fideo ysgafn i blant, i hyrwyddo'r cysyniad o ailgylchu. Bydd y fideo yn cael ei ddangos mewn ysgolion lleol. Gall y bwrdd stori gael ei gynhyrchu a'i recordio â llaw neu yn ddigidol, a dylai gynnwys delweddau sydd wedi'u hysbrydoli gan **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**.
2. Rydych chi'n ddylunydd graffig sy'n gweithio ar ddelweddau a syniadau dylunio ar gyfer cyhoeddusrwydd yr ymgyrch. Mae'r cyngor wedi gofyn am syniadau dylunio ar gyfer logo a phoster maint A1 sy'n cynnwys yr is-bennawd (*strapline*) "*Peidiwch â'i daflu allan – dylech ei daflu i mewn*". Mae'n rhaid i'ch delweddau a'ch teipograffeg gael eu hysbrydoli gan **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**.
3. Rydych chi'n ddarlunydd graffig (*graphic illustrator*) ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu delweddau a syniadau dylunio ar gyfer llyfr naid (*pop-up book*) wedi'i ysbrydoli gan **ddefnyddiau wedi'u hailgylchu**. Teitl y llyfr yw "*Peidiwch â'i daflu allan – dylech ei daflu i mewn*" a rhaid iddo gynnwys 5 tudalen naid. Mae eich cleient yn disgwyl gweld sut bydd y darluniadau'n edrych pan fyddant wedi 'neidio'.



**TUDALEN WAG**



**TUDALEN WAG**



**TUDALEN WAG**

